**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**HYDREF 30AIN 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YM MHANDY TUDUR**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Einir Williams (EW)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Sara Thomas (ST), Euros Williams (EUW), Darren Millar & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Clwyd Roberts (CR), Gwydion Jones (GJ) & Austin Roberts (AR)

Yn absenoldeb CR, gofynnwyd i EW yr is-gadeirydd i gadeirio a chytunodd. Croesawodd EW yr Aelod o'r Senedd Darren Millar i'r cyfarfod.

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

MGD gyda 5.2

**3.** Cafwyd trafodaeth gyda Darren Millar ble y rhanodd wybodaeth am rai pethau sydd wedi bod yn mynd ymlaen yn yr ardal a chafwyd rai cwestiynau ar y diwedd. Dyma a ddywedwyd:

"Rwyf yn cynyrchioli ein etholwyr lleol ac yn falch o i godi materion ar ran y gymuned. Diolch am y gwahoddiad a'r croeso cynnes. Dyma rai o'r materion lleol sydd wedi eu codi efo mi:

**Gor-yrru ar yr A548** – Rwyf wedi codi hyn efo'r awdurdod lleol sydd wedi bod yn adolygu cyflymder a gosod arwyddion i arafu beiciau modur sydd heb wneud llawer o wahaniaeth. Mae'r cyflymder drwy Langernyw lawer gwell ers i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno, fodd bynnag, mae cyffyrdd T a troeau yn y ffyrdd yn peri gofid. Os oes unrhyw ddamwain plis gadewch i mi a fy swyddfa wybod. Os nad yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol, ni wnaith dynnu sylw nac adnoddau. Mae'n bwysig casglu cymaint o ddata a phosibl ar gyfer yr awdurdod lleol a'r heddlu.

**Swyddfa post** – Rydym wedi brwydro'n galed ar ôl cofid i ail-agor y swyddfa bost. Roedd bws symudol o Betws yn Rhos am gyfnod. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa rydym yn ei wynebu nawr hefyd yn gallu rhoi y siop leol mewn perygl. Rwyf wedi bod mewn cysylltiad efo Swyddfa Bost Cyf i weld os all rhywun arall gymeryd y swyddfa bost drosodd neu oleiaf gynnig wasanaeth symudol. Fodd bynnag, maent yn dra penderfynol a rhoi llawer o esgusodion pam nad oedd angen gwasanaeth. Dywedon nhw os all y gymuned leol lunio cynllun e.e. grŵp cymunedol yn cael ei sefydlu i weithredu er enghraifft o'r Eglwys neu y Stag yna fyddai hyn yn rywbeth y gallent edrych mewn iddo. Mae capasiti y bws symudol lleol yn llawn ond rwyf wedi gofyn i Langernyw gael bod ar dop y rhestr petai lle yn dod ar gael.

**Cyllideb ysgol** – Cyfarfûm â Prif Weithredwr y sir a gofynnais i gyllidebau ysgolion gael eu gwarchod, fodd bynnag nid oedd yn gallu gwneud unrhyw addawiad. Mae arian yn cael ei dderbyn gan y Senedd ond does na ddim setliad da o Gaerdydd. Mae llai o arian y pen ar gael yn y sir oherwydd demograffig yn heneiddio yng Nghonwy cymharu â Chaerdydd, Abertawe a Chasnewydd. [ST yn cyrraedd]. Soniodd MGD mai ef yw Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Bro Cernyw a ni all yr awdurdod lleol roi gwybodaeth amserol ar wir wariant yn erbyn rhagolygiant. Mae'r ffigyrau bob amser 2 neu 3 mis allan o ddyddiad. Mae rhwystredigaeth gynyddol fod llywodraethwyr yn methu rhedeg ysgol heb wybodaeth gywir. Mae'r sefyllfa yn achosi pryder oherwydd gall fod torriadau o 6/8/10% yn y gyllideb a mae staff yn naturiol yn poeni am eu swyddi. Roedd yr ysgol yn disgwyl bod £50,000 yn y coch mewn un rhagolygiad, ond roedd yn y du yn y diwedd. Soniodd MGD hefyd yn Sir Ddinbych fod diffyg yn cael ei ganiatau cyn belled

fod yr ysgol yn adennill costau o fewn 3 mlynedd ond gwrthod gwneud hyn mae Conwy. Bydd Darren Millar yn dilyn hyn i fyny efo'r cyngor.

**GIG** – Mae wedi bod yn cael trafferthion ers sawl blwyddyn a mae gan ysbyty Glan Clwyd un o'r rhestrau aros gwaethaf ar gyfer Damweiniau ac Achosion Brys (A&E) yn y Deyrnas Unedig. Hefyd mae rhestrau aros hirfaith. Mae gennyf etholwyr yn cysylltu â mi ar ôl aros 5 neu 6 mlynedd am atgyfeiriad. Gofynnodd AV os dylsai Meddygon Teulu (GP) wneud mwy? Atebodd Darren fod Meddygon Teulu yn gweithio'n galed a fod y broblem yn yr ysbytai yn rhoi pwysau mewn llefydd eraill. Nid oes digon o welyau catrefi gofal ond hefyd does dim digon o welyau ysbytai oherwydd bod eu niferoedd wedi gostwng dros y blynyddoedd. Mae hyn yn effaith ganlyniadol ar y gwasanaeth ambiwlans. Mae angen mawr ar gyfer mwy o welau ysbytai cymunedol ac mae hyn wedi ei addo yn Rhyl am 13 mlynedd.

**Deintyddiaeth** – bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu llefydd newydd fydd yn cymeryd cleifion newydd a bydd hyn yn cael ei gyhoeddi o fewn y misoedd nesaf.

**Cyllideb heddiw** – mae cynydd treth mawr ar y cardiau, yr ail fwyaf erioed. Bydd yn costio mwy i gyflogwyr a ffermwyr a bydd dipyn o ymateb i'w ddisgwyl o'r Senedd.

Doedd dim sôn o gwbl am drydaneiddio rheilffordd Gogledd Cymru sydd yn ergyd fawr i Ogledd Cymru. Doedd dim cyhoeddiad yn newid fformiwla Barnett. Mae'r lwfans tanwydd gaeaf wedi ei dorri ac rwyf wedi bod yn galw am lwfans tanwydd gaeaf Cymru.

Roedd yn agored wedyn i'r Cynghorwyr ofyn cwestiynau. Trafododd JR am y Swyddfa Bost a'i bod wedi ysgrifennu atynt ar ran Merched y Wawr. Soniodd fod pawb wedi dangos dealltwriaeth yn ystod yr wythnosau roedd y swyddfa bost wedi cau ac ar y pryd y neges oedd y byddant 'ar agor wythnos nesaf' bob tro ond mewn gwirionedd roedd y bostfeistres eisioes wedi ymddiswyddo ym mis Mai. Dywedodd Darren er mwyn cadw'r siop yn agored ac yn ymarferol, rydym angen cymued graidd sydd yn fodlon gweithio i'w cadw yn agored e.e. mae gan Llanarmon yn Ial a Llandegla grŵp o bobl efo'r ysgogiad a ffocws. Mae beth ddechreuodd efo gwirfoddolwyr rwan yn rhedeg ei hun. Cytunodd Darren fod cyfathrebu wedi bod yn wael a crigodd y byddai wedi dod i wybod yn gynt am y sefyllfa. Bydd yn rhannu'r ateb y gafodd gan y swyddfa bost, ond roeddynt yn bendant nad oedd unrhyw beth roeddynt yn gallu rhagweld y byddai'n newid eu meddwl.

Aeth DR ymlaen i sôn am yr angen am fwy o heddlu mewn ardaloedd gwledig oherwydd fod gweld heddlu yn yr ardal yn beth prin iawn. Dywedodd Darren fod plismona cymunedol yn cael ei wneud yn wahanol iawn y dyddiau yma ac anogodd y cyngor cymuned i wahodd swyddog lleol i gyfarfod oleiaf unwaith y flwyddyn. Dywedodd fod llawer mwy o swyddogion wedi eu haddo ond fod hyn dal heb ddigwydd eto. Soniodd Darren fod lefelau trosedd yn isel yn yr ardal ond mae pethau yn digwydd ac mae'n fwy na bodlon dilyn materion i fyny efo'r heddlu. Crybwyllodd EUW fod llawer o *supercars* wedi bod yn yr ardal yn ddiweddar. Dywedodd EW fod 3 cynghorydd wedi sylwi ar *supercars* mewn lleoliadau gwahanol, a gofynodd os oeddynt yn defnyddio'r ffordd yma yn lle'r *evotriangle*? Dywedodd Darren ei fod wedi gweithio yn galed i ddeisebu Llywodraeth Cymru i atal y broblem efo'r *evotriangle.* Dywedodd fod llawer o geir yn anwybyddu'r terfyn cyflymder 20mya ar hyd yr A548 ond fod yr arwyddion cyflymder yn Llangernyw yn gwneud gwahaniaeth. Crybwyllodd AV fod yr arwyddion osodwyd i arafu beiciau modur wedi eu gosod efo *tiebacks* sydd yn golygu eu bod yn symud rownd y polion ac yn mynd o Abergele i Lanfair TH yn unig, ddim i Langernyw. Dywedodd Darren y byddai'n cysylltu â Go Safe iddynt fonitro'r sefyllfa ond oherwydd nad yw yn briffordd ni fydd Llywodraeth Cymru yn ariannu newidiadau a fyddai angen i Cyngor Conwy wneud yn lle.

Cododd JR y mater o feiciau trydan sydd yn rasio i fyny ac i lawr y ffordd tuag at Holland Arms efo 2 neu 3 teithwyr. Roedd ganddynt ddillad tywyll a dim helmed. Dywedodd Darren fod angen ffonio 101 mewn achosion fel hyn. Dywedodd JR ei bod wedi ffonio ar y pryd.

Gofynnodd DR pwy yn Llywodraeth Cymru sydd yn monitro adeiladu ffermydd gwynt? Dywedodd Darren fod fframwaith cenedlaethol ar gyfer ffermydd gwynt. Maent bob amser yn achosi pryder a ffraeo ac yn ei farn personnol mae lle iddynt allan yn y mor. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar wynt a dim ffynhonellau eraill fel tyrbeini tanddŵr ac yn y môr. Mae cynllunio bob amser yn ffafrio gwynt os nad oes rheswm da i beidio. Dywedodd fod cwmniau yn gweithredu sydd ddim yn talu'r pris cystadleuol i'r ffermwyr. Dywedodd os oes unrhyw gwmniau yn cysylltu ei fod angen gwybod amdano a hefyd os oes unrhyw ddatblygiad yn yr ardal.

Gwahoddodd Darren y cynghorwyr ar ymweliad â'r Senedd un diwrnod lle gallant ddod i mewn i weld y Senedd mewn sesiwn. Mae'n hapus iawn i drefnu taith a thicedi i gwestiynau'r Prif Wenidog.

Gofynnodd DR am y newidiadau arfaethedig i ffiniau seneddol. Dywedodd Darren y bydd y Senedd yn fwy efo niferoedd yn codi o 60 i 96. Mae yna 40 etholaeth ar hyn o bryd a mae'r cynllun arfaethedig presennol yn gostwng hyn i 16 etholaeth a bydd pob un yn ethol 6 aelod. Bydd ffiniau newydd yn golygu fod Darren yn sefyll yn y Clwyd newydd a byddwn ni mewn etholaeth newydd yn cynwys Bangor Aberconwy ac Ynys Môn. Bydd pob aelod o'r senedd angen gweithio allan sut i rannu'r ardal fel fod etholwyr yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am gymorth. Dywedodd MGD y gallai bod aelodau o bartïon gwahanol. Cytunodd Darren efo hyn ac ychwanegodd na fyddwch yn cael pledleisio am berson ond yn hytrach plaid wleidyddol ac na fyddai atebolrwydd uniongyrchol. Hon fydd yr unig wlad yn y byd lle fydd hyn yn digwydd. Dywedodd Darren ei fod wedi cynyrchioli'r ardal am 18 mlynedd ac wedi dod i adnabod y bobl leol. Bydd yr etholaeth newydd yn mynd o Llandrillo yn Rhos i Langollen efo 150,000 o bobl felly fydd yn anodd iawn adnabod pobl yn bersonnol. Bydd y newidiadau yma yn digwydd yn 2026.

Diolchodd EW Darren Millar yn fawr iawn am ei amser ac am ddod a'r materion yma i sylw'r Cyngor Cymuned. Gorffennodd Darren drwy ddweud y byddai mewn cysylltiad ynglyn â'r materion godwyd."

### 3 COFNODION MEDI 25AIN 2024 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan JR ac eilwyd gan DR.

### 4 MATERION YN CODI

**4.1** Derbyniodd CWG ateb yn ôl gan Archwilio Cymru ynglŷn â'r eglurhad o'r bil a gafwyd y mis diwethaf. Dywedasent mai BDO oedd yn cynnal yr archwiliad ar y pryd a'u bod am gysylltu â hwy i gael dadansoddiad ganddynt a byddent yn cysylltu yn ôl yn fuan.

**4.2** T.A.W – dywedodd DR ei bod wedi siarad gydag Enid o Bentrefoelas sydd yn ei wneud o ei hun. Cynigiodd EW y dylid ei drafod yn y pwyllgor y mis nesaf i ystyried ymgymeryd a'r gwaith ein hunain. Dywedodd DR y byddai yn anfon cyswllt i'r wefan y mae Enid yn ei ddefnyddio ymlaen. Eiliodd MGD y dylid ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

**4.3** Torri gwair ym mynwent Pandy Tudur – cysylltodd CWG gyda Steve Trow yn ystod y mis ac maent wedi dweud y byddai hyn yn bosib. Gofynnodd i CWG rannu ei gyfeiriad e-bost ac mae wedi gwneud hynny gyda ST, MGD a GJ.

**4.4** Cyfraniad trydan diffibrilydd i'r Stag – cafodd CWG sgwrs gyda Tomos Hughes a dywedodd bod £20 neu £25 yn addas. Cytunodd bawb i dalu £25 yn flynyddol.

**4.5** Mae'r ail arwydd VAS bellach i fyny hefyd.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** Cais Rhif 0/51972 Pen Y Ffridd, Waterloo LL22 8RH

Pawb yn cymeradwyo cyn belled nag oes datblygiad arall yn digwydd ar y safle.

**5.2** Cais Rhif 0/52015 Foel Fawr, Llanrwst LL26 0NT

Wedi ei dynnu'n ôl.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Derbyniodd CWG e-bost gan DR yn ystod y mis gan fod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu parthed gwaith adeiladu wrth Hwlcyn, top Waterloo. Gofynnodd CWG am gyngor oddi-wrth AR a dywedodd i wneud cwyn i adran gweithredu'r cyngor felly CWG wedi gwneud hynny. Wedi cael neges yn ôl yn dweud fod angen i'r aelod o'r cyhoedd adrodd amdano ar y ddolen gan roi ychwaneg o fanylion am y lleoliad a pha waith sy'n mynd ymlaen yno. CWG wedi rhannu'r ddolen gyda DR. Dywedodd DR bod yr aelod o'r cyhoedd wedi penderfynu peidio gwneud sylwad yn y diwedd.

**6.4** Model Rheoliadau Ariannol gan Un Llais – penderfynwyd i drafod y rhain mewn is-bwyllgor i gwrdd am 19:00 o'r gloch cyn cyfarfod mis Tachwedd. Gofynnwyd i EW, DR a CR fod yn bresennol ac yna gellid eu trafod yn y pwyllgor y noson honno.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

**7.1** Wedi derbyn arwyddion baw ci ac wedi eu rhoi i'r clerc.

**7.2** Siop bach - Emyr "Priffyrdd" am ofyn am ddiweddariad oddi-wrth yr adran rheoleiddio.

**7.3a** Glan Collen - pot blodyn - ERF angen dyddiad ag amser y digwyddiad, cost y difrod ag os yn bosib rhif y tractor. Trafodwyd fod y dyddiad gan DR a bod y gost yn £75 i'r potyn, compost a'r blodau oedd ynddo.

**7.3b** Monitro cyflymder - mae hyn wedi ei wneud lawr heibio'r byngalos gan mai oddi yno y cefais y gwyn gwreiddiol ac nid wyf wedi derbyn y canlyniadau eto. Deallaf fod angen monitro gweddill y stad hefyd felly mi drefnaf hynny yfory.

**7.4** Mieri a Iwrwg Pen y Fron - cyfrifoldeb y perchennog yw hwn nid y sir.

**7.5** Ffensys metel - wedi tynnu lluniau a'u hanfon at ERF, ond yn aml mae yna gyfnod amser ynglŷn â pherchnogaeth a chyfrifoldeb.

**7.6** Tŷ'r Ysgol, Gwytherin - adroddiad i ddod gerbron y cabinet mis nesaf gyda'r argymhelliad i'w werthu gydag amod i'w werthu i ddeiliad lleol.

**7.7** Swyddfa Bost Llangernyw - wedi anfon e-bost at Claire Hughes yr Aelod Seneddol newydd yn gofyn am gymorth a chefnogaeth.

**7.8** Y Ganolfan, Llangernyw - man ddifrod a graffiti wedi digwydd yn ddiweddar. Mae'r pwyllgor yn gofyn oes modd gosod T.C.C. Rwyf wedi gwneud ymholiadau hefo'r adran rheoleiddio a heb gael ymateb eto felly wedi anfon ail e-bost atynt heddiw.

**7.9** Bont y Pandy - y clerc a finnau wedi derbyn cwyn ynglŷn â chyflwr y bont. Rwyf wedi ymateb gyda'r esboniad bod y bont yn cael ei fonitro yn rheolaidd, ond ar ôl y panad a sgwrs wythnos nesaf mi biciaf draw a thynnu lluniau'r bont a'u hanfon at brif beiriannydd y sir.

**7.10** Difrod ar y bont wrth ymyl Twnti. Mae wedi cael ei batsio ond bydd angen ei wneud yn iawn eto.

## 8 MATERION ARIANNOL

**8.1** Bil gan yr HMRC yn ystod y mis o £301.80
**8.2** Adroddiad chwarterol - pawb yn cytuno.

## 9 GOHEBIAETH

**9.1** Sedd wag - wedi cael llythyr cais gan John Harris. Dywedodd EW ei bod yn gefnogol iawn gan ei fod yn unigolyn gweithgar yn y gymuned erioed. MGD yn eilio hyn. Roedd pawb yn diolch am y cais ac yn falch iawn o'i groesawu i fod yn Gynghorydd unwaith eto.

**9.2** Wedi derbyn neges gan Tenovus drwy'r wefan yn gofyn am ddod i siarad gydag un ai Cyngor Cymuned Llangernyw neu Hwb Cynnes yr ardal ynglŷn â'r gwasanaethau maent yn eu cynnig. Penderfynwyd y byddai'r hwb cynnes yn fwy addas er mwyn cyrraedd gymaint o bobl a phosib a CWG i rannu'r manylion cyswllt gydag ef.

**9.3** Wedi derbyn e-bost ynglŷn â chyflwr pont Pandy Tudur gan aelod o'r cyhoedd a oedd wedi e-bostio AR hefyd. AR wedi gofyn am asesiad arall gan y Cyngor Sir sydd wedi dweud y byddent yn ei atgyweirio pan mae pres yn caniatáu.

Wedi anfon ymlaen i DR er gwybodaeth:
**9.4** Gwybodaeth am sesiwn 'Cyllid, Grantiau a Phennu'r Praesept' gan Un Llais Cymru

Wedi anfon ymlaen i bawb er gwybodaeth:
**9.5** E-bost gan Esyllt o CVSC ynglŷn â grantiau i dalu costau gwirfoddolwyr

**9.6** E-bost ynglŷn â Therfyn Cyflymder 20 mya gan Gyngor Conwy
**9.7** Arolwg Gofal Brys gan Llais
**9.8** Gwybodaeth am sachau newydd ar gyfer ailgylchu cardfwrdd gan Gyngor Conwy
**9.9** Gwybodaeth am gyrsiau am ddim i gynghorwyr wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru
**9.10** Ymateb Un Llais Cymru i Ymchwiliad y Senedd i Gynghorau Cymuned a Thref
**9.11** Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel - dweud eich dweud gan Wasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru

## 10 BILIAU

**10.1** Bil Cyfieithu Enlli - £95
**10.2** Blodau Gwytherin - £63.15
**10.3** Blodau Llangernyw - £20.29
**10.4** Dwr Cymru - £13.73

Pawb yn cytuno i dalu'r uchod i gyd

## 11 MATERION LLEOL

**EW** John Kevin wedi cysylltu â hi gan fod CR wedi gofyn iddo glirio llwybr y pererinion ond nid yw'n siŵr yn union lle. EW am ofyn i drigolion Gwytherin pe baent yn cerdded y llwybr i weld lle sydd angen ei glirio. Dywedodd bod y biniau bagiau baw ci yn wag ond mae gan EUW rai er mwyn ei ail-lenwi. Mae mieri yn y ffordd wrth gornel Glan Collen. Penderfynwyd i CWG i sôn wrth AR i ofyn i Emyr am ei dorri.

**DR** Aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu yn meddwl bod dip yn y ffordd wrth Gell a Lead Inn a allai olygu fod y ffordd yn rhoi, DR am ddweud wrth AR. I fyny'r allt o Lanfair Talhairan am Abergele, mae andros o dwll yn y ffordd. O ran y cae wrth yr ysgol mae dal i fynd drwy'r gwaith papur er mwyn profi pwy yw'r perchennog. Dywedodd MGD fod llywodraethwyr wedi ei drafod a'i fod o dan ddargadwad tan 2026 ac yna bydd angen sgwrs am ei ddyfodol yn dilyn. Dywedodd fod AR yn ymwybodol o'r sefyllfa ac efallai y gellir cael diweddariad ganddo yn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd DR a oedd yn iawn gwario i lenwi tybiau blodau Llangernyw a chytunodd pawb gyda hynny. Hefyd, mae tractor glas efo baneri Cymru ar y drychau angen arafu i lawr wrth fynd drwy Langernyw. Mae DR wedi ffonio'r heddlu ynglŷn â beiciau trydan sydd o gwmpas yr ardal.

**EUW** – heb gael pris eto i ail-wneud yr hysbysfwrdd yng Ngwytherin ond mae wedi cael syniad i ddefnyddio'r pren o'r goeden yn yr Eglwys a ddymchwelodd. Nid yw'n siŵr os oes darn addas ond am ofyn i Kevin. Hefyd, mae rhywun wedi taro'r bont wrth ymyl Tan y Bryn a Phen y Bont, Gwytherin.

**JR** Roedd aelod o'r cyhoedd yn cerdded i'w gwaith ac yn sefyll ar y palmant wrth y darn cul wrth yr Eglwys, pan wnaeth gar daro ei braich. Roedd y ddynes yn flin efo hi tra oedd yr aelod o'r cyhoedd yn poeni y gallai fod wedi taro plentyn. Gofynnodd a oedd yn bosib paentio'r palmant yn wyn er mwyn tynnu sylw? Awgrymodd EUW dwmpath cyflymder. Dywedodd DR fod rhai pobl yn mynd yn araf drwy'r pentref ond yn rhoi troed i lawr wrth fynd heibio ei thŷ hi. Penderfynwyd i CWG ofyn i AR os yw'n bosib paentio'r palmant.

**AV** Mae yna griw cymunedol sydd yn torri gwair yn y fynwent yn fodlon paentio hefyd e.e. safleoedd bws. Gofynnodd ST os fuasen nhw'n gwneud y potiau blodau ym Mhandy Tudur. Mae gan JR staen brown ar gyfer y potiau. Penderfynwyd i CWG wneud dogfen byw y gellir ei rannu gyda phawb i bawb rhoi rhestr o swyddi y gallent eu gwneud a CWG i e-bostio Steve Trow.

Cyfeiriodd AV at y sesiwn yr wythnos nesaf er mwyn ail-lansio'r Clwb Garddio. Ychwanegodd EW fod hyn yn bwysig gan ei fod hefyd yn rhan o gynllun bioamrywiaeth y Cyngor Cymuned. Cytunodd DR a JR i wneud paned a chadarnhawyd y trefniadau.

**12 CYFARFOD NESAF**

Tachwedd 27ain 2024 yn Llangernyw
Cyfarfod yn dod i ben am 22:15
Cymerwyd y cofnodion gan CWG